

DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

29^{ain} Ebrill 2024

(see below for English)

YDFO
DYFO

DYFODOL I'R IAITH - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN YN SIOMI PENTREF PORTH-Y-RHYD

Mae Dyfodol i'r iaith yn hynod siomedig fod Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cymeradwyo cais i adeiladu 42 o dai newydd ym mhentref Porthyrhyd dydd Iau (25/4/24).

Gyda Mudiad Amddiffyn Porthyrhyd roedd Dyfodol i'r iaith wedi cyflwyno tystiolaeth gadarn y byddai caniatáu'r datblygiad yn siŵr o arwain at Seisnigeiddio pentref lle mae 68.5% yn gallu'r Gymraeg. Mae'n un o wardiau cynyddol brin hynny lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y gymuned ac yn iaith feunyddiol y mwyafrif. Ym mis Hydref 2023 nodwyd bod 68.5% o drigolion y pentref yn siarad Cymraeg. Mae'r ganran hon o siaradwyr Cymraeg yn perthyn i 10% uchaf cymunedau Cymru o ran canran siaradwyr. Mae gan y pentref, felly, arwyddocâd ieithyddol arbennig. Gyda 68.5% o siaradwyr Cymraeg, mae modd i'r pentref gynnal cymuned Gymraeg ei hiaith yn effeithiol, a'r Gymraeg yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned. Dim ond 73 o adrannau etholiadol trwy Gymru gyfan sydd â rhagor na 60% yn siarad y Gymraeg.

Ni chafwyd tystiolaeth bod galw am dai cymdeithasol yn y pentref, ac yn sicr dim tystiolaeth bod angen 42 o dai yno. Ni chafwyd asesiad effaith ieithyddol pwrpasol ar gyfer y datblygiad hwn ac nid yw ymrwymiad y datblygwr i farchnata'n lleol a chlustnodi cyfran o'r tai ar rent fforddiadwy ac i bobl leol yn warant y ceir unrhyw deulu neu unigolyn Cymraeg i fyw yn y tai. Rydym felly yn galw ar y datblygwr a'r Cyngor Sir i gynnal asesiad effaith ieithyddol annibynnol 18 mis ar ôl i bobl symud i'r holl dai newydd fel sail wirioneddol dros sefydlu beth yn union yw'r effaith ieithyddol. Dyna'r unig ffordd i sefydlu beth yw perthynas rhwng tai lleol, fforddiadwy a'r Gymraeg. Nid yw hyn yn digwydd yn unman ar hyn o bryd.

Mae'r cynllun yma'n rhan o fater ehangach adeiladu tai yn Sir Gâr, a Chynllun Datblygu Lleol y Sir am godi mwy nag 8,000 o dai, heb roi ystyriaeth i ganlyniadau iaith Cyfrifiad 2021, a heb gynnal asesiad effaith ieithyddol. Mae'n ymddangos fod y Cynllun hwn yn bwriadu codi llawer mwy o dai nag y mae eu hangen yn lleol. Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod y Gymraeg wedi dirywio'n fwy yn Sir Gâr nag yn unrhyw un arall o siroedd Cymru. Syrthiodd o 43.9% yn 2011 i 39.9% yn 2021. Roedd 5,200 yn llai o drigolion 3 oed a hŷn yn siarad y Gymraeg yn 2021 nag oedd yn 2011. Cynyddodd nifer y rhai nad oedd yn siarad y Gymraeg gan 10,300. Ar ben hynny collwyd 5,800 rhwng 2001 a 2011, sy'n golygu lleihad o 11,000 mewn 20 mlynedd.

Cynyddodd poblogaeth Sir Gâr gan 4,100 rhwng 2011 a 2021. Nid oedd y cynnydd yma'n ganlyniad twf naturiol y boblogaeth. Yn y cyfnod yma cynyddodd nifer y rhai a anwyd yn Lloegr gan 3,200. Mae mewnfudo i Sir Gâr yn digwydd: mae 20.2% o boblogaeth Sir Gâr wedi'u geni yn Lloegr, o'i gymharu â 18.9% yn 2011. Yn yr un cyfnod syrthiodd canran y rhai a anwyd yng Nghymru o 76% i 73.8%.

Mae astudiaethau wedi eu gwneud, e.e. gan Ian Mulheim, Prif Weithredwr a Phrif Economegydd Athrofa Tony Blair yn "Housing Crisis, What Crisis (2016)" ac yn "Tackling the Housing Crisis, is Supply the Answer (2019)", sy'n dadlau bod mwy o dai nag o aneddiadau yng Nghymru, yr Alban a Lloegr, ac mai'r angen yw defnyddio'r stoc tai sydd ar gael, ond heb eu defnyddio.

Mae Cynllun Datblygu Lleol draftt Sir Gaerfyddin (2017) yn nodi "y prif ffactor sydd wedi dylanwadu ar newid i boblogaeth Sir Gaerfyddin ers 2000/1 yw mewnfudo, lle mae mwy o bobl wedi symud i'r sir nag sydd wedi gadael. Bydd targed Sir Gâr o godi 8,835 o dai yn sicr o ddenu mewnfudo, yn hytrach na diwallu anghenion y sir ei hun.

Meddai Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r laith:

"Rydym yn bryderus iawn y bydd y Cyngor Sir yn goruchwyllo twf datblygiad tai fydd yn cyflymu'r dirywiad ieithyddol a welwyd ar ei waethaf trwy Gymru gyfan yn Sir Gaerfyddin yn ôl y Cyfrifiad olaf. Mae hyn yn tanseilio Cymraeg 2050 a'r gwariant cyhoeddus ar gynlluniau sy'n ceisio lleihau a thro'i dirywiad ieithyddol ledled y sir. Dengys fod y Cyngor Sir yn gweithredu yn gwbl groes i hynny ac yn cyfrannu at ddirywiad ieithyddol y Gymraeg yn y sir.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod cyfrifoldeb ymgynghorai statudol i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar geisiadau cynllunio tai mwy er mwyn sicrhau fod Adrannau Cynllunio yn gweithredu mewn modd trylwyr, cyson a chyfrifol. Byddai angen clustnodi adnoddau pellach i Gomisiynydd y Gymraeg allu cyflawni'r swyddogaeth hon ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw awdurdod cyhoeddus yn goruchwyllo'r broses cynllunio ar lawr gwlaid Cymru o ran sicrhau lles a dyfodol y Gymraeg. Mewn cyferbyniad llwyr mae myrdd o gyrrff cyhoeddus yn statudol gyfrifol am ymateb i oblygiadau amgylcheddol a chadwraethol tebygol datblygiadau tai ond heb drefn gyffelyb i warchod y Gymraeg byddwn yn parhau i weld awdurdodau cynllunio yn gweithredu mewn modd sydd yn niweidiol i'r Gymraeg fel iaith aelwydydd a chymunedau ar lawr gwlaid Cymru."

Oni chryfheir statws y Gymraeg o fewn y gyfundrefn gynllunio mi welwn ddiflaniad llwyr cymunedau o arwyddocâd ieithyddol o fewn cenhedlaeth. Mae'n amser adolygu fformiwla anghenion tai sirol a chenedlaethol a sefydlu cyfundrefn sy'n rhoi statws a gwarchodaeth briodol i'r Gymraeg, ein trysor cenedlaethol."

- DIWEDD -

Am fanylion pellach cysylltwch â Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r laith ar 07989393445 neu dylanbryn@dyfodol.net neu Heini Gruffudd, Cadeirydd, 01792 455410, 07983 506805, heini@gruffudd.org

Dyfodol i'r laith

- Mae Dyfodol i'r laith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles y Gymraeg
- Ei nod yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg.

DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

29th April 2024

DYFODOL
I'R
IAITH

DYFODOL I'R IAITH – CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL HAVE FAILED PORTH-Y-RHYD

Dyfodol i'r iaith is extremely disappointed that Carmarthenshire County Council has approved an application to build 42 new homes in the village of Porthyrhyd on Thursday (25/4/24).

With the Porthyrhyd Defence Movement, Dyfodol i'r iaith had presented solid evidence that allowing the development would surely lead to the anglicisation of a village where 68.5% speak Welsh. It is one of those increasingly rare wards where Welsh is part of the fabric of the community and the everyday language of the majority. In October 2023 68.5% of adults in the village were identified as speaking Welsh. This percentage of Welsh speakers belongs to the top 10% of Welsh communities in terms of percentage of speakers. The village, therefore, has special linguistic significance. With 68.5% Welsh speakers, the village can effectively maintain a Welsh-speaking community, with Welsh playing a prominent role in the life of the community. Only 73 electoral divisions throughout Wales have more than 60% speaking Welsh.

There has been no evidence that there is a demand for social housing in the village, and certainly no evidence that 42 houses are needed there. There has been no specific linguistic impact assessment for this development and the developer's commitment to market locally and earmark a portion of the housing at affordable rent and to local people is no guarantee that any Welsh family or individual will be found to live in the houses. We therefore call on the developer and the County Council to carry out an independent language impact assessment 18 months after people have moved into all the new housing as a real basis for establishing exactly what the language impact is. That is the only way to establish what constitutes a relationship between local, affordable housing and the Welsh language. This isn't happening anywhere right now.

This scheme is part of the wider issue of housebuilding in Carmarthenshire, and the County's Local Development Plan for more than 8,000 houses to be built, without regard to the language consequences of the 2021 Census, and without undertaking a language impact assessment. It appears that this Plan intends to build far more housing than is needed locally. The 2021 Census showed that the Welsh language declined more in Carmarthenshire than in any other of Wales' counties. It fell from 43.9% in 2011 to 39.9% in 2021. There were 5,200 fewer residents aged 3 and over speaking Welsh in 2021 than there were in 2011. The number of non-Welsh speakers increased by 10,300. Furthermore 5,800 were lost between 2001 and 2011, representing a reduction of 11,000 in 20 years.

Carmarthenshire's population increased by 4,100 between 2011 and 2021. This increase was not due to natural population growth. In this period the number of those born in England increased by 3,200. Immigration to Carmarthenshire is taking place: 20.2% of Carmarthenshire's population are born in England, compared to 18.9% in 2011. In the same period the percentage of those born in Wales fell from 76% to 73.8%.

Studies have been done, e.g. by Ian Mulheim, Chief Executive and Chief Economist at the Tony Blair Institute in "Housing Crisis, What Crisis (2016)" and in "Tackling the Housing Crisis, is Supply the Answer (2019)", which argue that there are more houses than homes in England, Scotland and Wales, and that the need is to use available housing stock, which is now not used.

Carmarthenshire's draft Local Development Plan (2017) states "the main factor that has influenced carmarthenshire's population change since 2000/1 is immigration, where more people have moved to the county than have left. Carmarthenshire's target of building 8,835 houses will surely attract immigration, rather than meet the needs of the county itself.

Dylan Bryn Roberts, Chief Executive of Dyfodol i'r Iaith, said:

"We are very concerned that the County Council will oversee the growth of a housing development that will accelerate the linguistic decline that has been seen across the whole of Wales in Carmarthenshire according to the final Census. This undermines Welsh 2050 and the public spending on schemes that aim to reduce and turn around the linguistic decline across the county. It shows that the County Council acts in stark contrast to that and contributes to the linguistic decline of Welsh in the county.

We call on the Welsh Government to impose statutory consultative responsibility to the Office of the Welsh Language Commissioner on larger housing planning applications to ensure that Planning Departments act in a thorough, consistent and responsible manner. Further resources would need to be earmarked for the Welsh Language Commissioner to carry out this function but there is currently no public authority overseeing the planning process on the Welsh ground in ensuring the wellbeing and future of the Welsh language. In stark contrast a myriad of public bodies are statutorily responsible for responding to the likely environmental and conservation implications of housing developments but without a similar regime to protect the Welsh language we will continue to see planning authorities act in a way that is detrimental to Welsh as the language of households and communities on the Welsh ground."

Unless the status of the Welsh language is strengthened within the planning regime we will see the complete disappearance of communities of linguistic significance within a generation. It is time to review the formula of county and national housing needs and establish a regime that gives proper status and protection to the Welsh language, our national treasure."

- ENDS -

For further information please contact Dylan Bryn Roberts, Chief Executive, Dyfodol i'r Iaith on 07989393445 or dylanbryn@dyfodol.net or Heini Gruffudd, Chair, 01792 455410, 07983 506805, heini@gruffudd.org

Dyfodol i'r Iaith

- Dyfodol i'r Iaith (A Future for the Language) is a non-political organisation that works for the promotion of the Welsh language.
- Its aim is to exert influence through constitutional means on the substance and content of public policies and legislation in order to promote and nurture the growth of the Welsh language.